**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
CaerdyddCF99 1SN

10 Chwefror 2025

Annwyl Mr Isherwood

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23**

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23, dyma anfon atoch yr ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad.

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Craffu ar Gyfrifon: Llywodraeth Cymru 2022-23

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

10/02/2025

## Crynodeb

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, fel rhan o'i raglen waith flynyddol Craffu ar Gyfrifon, sesiwn dystiolaeth ar 20 Mawrth 2024 ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfunol 2022-23 Llywodraeth Cymru a gosododd ei adroddiad dilynol ar 17 Rhagfyr 2024.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys 16 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**Tudalen**

**1. Cyflwyniad....3**

**2. Argymhellion....4**

- Argymhelliad 1.... 4
- Argymhelliad 2.... 4
- Argymhelliad 3....4
- Argymhelliad 4....5
- Argymhelliad 5....6
- Argymhelliad 6....6
- Argymhelliad 7....7
- Argymhelliad 8....8
- Argymhelliad 9....9
- Argymhelliad 10.... 10
- Argymhelliad 11....10
- Argymhelliad 12.... 12
- Argymhelliad 13....13
- Argymhelliad 14....14
- Argymhelliad 15....15
- Argymhelliad 16....15

**3. Atodiad 1....18**

# 1. Cyflwyniad

## Roedd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnwys 16 o argymhellion.

**1.** Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor am ei adroddiad Craffu ar Gyfrifon ac wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i bob argymhelliad a wnaed.

**2.** Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r argymhellion heblaw am ran o argymhelliad 9.

# 2. Argymhellion

### Argymhelliad 1

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer Cyfrifon 2024-25 ar ôl iddi gael ei chytuno gydag Archwilio Cymru.**

Derbyn

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymddiheuro i'r Pwyllgor bod hyn wedi cael ei hepgor o amserlen 2023-24. Mae cyfarwyddiadau desg wedi cael eu diweddaru i sicrhau bod amserlenni 2024-25 a blynyddoedd dilynol yn cael eu cyhoeddi ar ôl iddynt gael eu cytuno gydag Archwilio Cymru.

### Argymhelliad 2

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am baratoi a chymeradwyo’r achos busnes ar gyfer system cyllid newydd, ynghyd â gwybodaeth am y cynlluniau a'r costau posibl cysylltiedig os na chymeradwyir yr achos busnes.**

Derbyn

Cytunwyd ar yr Achos Busnes Amlinellol Strategol ar gyfer system gyllid newydd, a oedd hefyd yn cynnwys ein system adnoddau dynol, yng nghyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ym mis Awst 2024. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r achosion busnes amlinellol a llawn ac fel rhan o'r gwaith hwnnw, rydym yn datblygu map trywydd ar gyfer pob un o'n systemau corfforaethol allweddol. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym gynllun systemau cynhwysfawr a'n bod yn rheoli'r amrywiaeth o risgiau system.

Caiff y map trywydd a'r achosion busnes eu datblygu yn 2025 fel y gall y blaengynllun buddsoddi gael ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer y seithfed Senedd. Bydd yr achos busnes yn ystyried yr opsiynau amrywiol ac yn amlygu costau a risgiau peidio â buddsoddi yn seilwaith systemau Llywodraeth Cymru.

### Argymhelliad 3

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor, cyn y gwaith craffu ar Gyfrifon 2023-24, am ei chynlluniau i ddwyn y broses o gymeradwyo’r cyfrifon ymlaen i fis Medi.**

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Archwilio Cymru bob blwyddyn wrth gynllunio'r archwiliad, i ystyried amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifon yng nghyd-destun y canlynol:

- tirlun archwilio'r sector cyhoeddus yn ehangach yng Nghymru,
- datblygiadau ym maes gofynion adrodd ariannol,
- unrhyw gyrff sector cyhoeddus sydd wedi cael eu creu neu newidiadau i gyrff sector cyhoeddus presennol a'u dosbarthiad,
- newidiadau i safonau archwilio (fel ISA315 ac ISA600) neu God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol,
- cynnydd y prosiect cysoni i sicrhau bod cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru wedi'u dosbarthu a'u dynodi'n gywir gan SYG,
- newidiadau i gwmpas neu gymhlethdod Cyfrif Grŵp Llywodraeth Cymru.

Yn achos 2024-25, mae hyn yn cynnwys ystyried gweithredu safon archwilio Cyfrifon Grŵp ISA600 yn llawn, Prisiad Pum Mlynedd y Rhwydwaith Ffyrdd Stratregol, Prisiad Pum Mlynedd Ystad Llywodraeth Cymru, proses newydd ar gyfer prisio'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth â'r Adran Addysg yn Lloegr, datblygiadau pellach i'r tri phrosiect MIM wrth iddynt fynd rhagddynt, dosbarthiad SYG o TfW Fibre Limited a GCRE Limited, paratoi i weithredu IFRS17 Contractau Yswiriant ar draws y sector Llywodraeth Ganolog o 1 Ebrill 2025, a pharatoi i weithredu canllawiau newydd ar brisio asedau anariannol o 1 Ebrill 2025 yn dilyn adolygiad thematig mawr gan Drysorlys EF.

Cafwyd trafodaeth barhaus ynghylch y nod o gyflwyno cynllun tair blynedd i sicrhau bod y Cyfrifon yn cael eu cymeradwyo yn gynt ond, o gofio bod yn rhaid gweithredu o fewn y cyd-destun uchod, nid oes cynllun ffurfiol sy'n nodi dyddiadau gosod arfaethedig ar gyfer y tair blynedd nesaf ar gael eto.
Caiff trafodaethau pellach eu cynnal rhwng Archwilio Cymru, Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a swyddogion allweddol yn Llywodraeth Cymru (gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am Gyfrifon y GIG yng Nghymru) yn ystod gwanwyn 2025.

Argymhelliad 4.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru lunio a chadw rhestr o gyrff y gall gaffael gwasanaethau oddi wrthynt gan ddefnyddio'r 'eithriad Teckal' neu restr o gontractau a gaffaelwyd drwy’r dull hwnnw a’i bod yn rhannu’r rhestr hon â’r Pwyllgor unwaith y mae wedi’i chwblhau.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o'r 269 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru Sefydliadau | LLYW.CYMRU. Gellir hidlo'r rhestr i ganfod 15 o gwmnïau o dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru y dylai eithriad 'Teckal' fod yn gymwys iddynt.

Nid yw Partneriaethau Lleol (Local Partnerships LLB) yn Gorff Cyhoeddus yng Nghymru nac yn gwmni o dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru ac felly nid yw'n ymddangos ar y rhestr hon.

O 24 Chwefror 2025, bydd deddfwriaeth gaffael newydd (Deddf Caffael 2023) yn gymwys i gaffael cyhoeddus yng Nghymru. Bydd eithriad 'Teckal' yn dod i ben ar ei ffurf bresennol ond caiff ei ddisodli gan eithriad 'trefniadau fertigol', sy'n rhannu llawer o'r un nodweddion ag eithriad 'Teckal'.

Yn sgil y newidiadau i gaffael cyhoeddus a fydd yn digwydd pan ddaw'r Ddeddf Caffael (2023) i rym, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canllawiau i staff ar gymhwyso'r eithriad 'trefniadau fertigol'. Bydd y canllawiau yn cynnwys atodiad a fydd yn rhestru'r cyrff hynny a fydd yn ddarostyngedig i'r 'trefniadau fertigol' ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n ychwanegol at gwmnïau sydd o dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, yr unig gorff y byddai hyn yn gymwys iddo yw Partneriaethau Lleol.

Argymhelliad 5.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru rannu â'r Pwyllgor hwn wybodaeth am ei defnydd o Local Partnerships, gan gynnwys gwariant a ysgwyddwyd, rhestr o gontractau a natur y gwasanaethau/gwaith a gaffaelwyd oddi tanynt.

Derbyn

Mae gwybodaeth am ddefnydd Llywodraeth Cymru o Partneriaethau Lleol (Local Partnerships LLP), fel y gofynnodd y Pwyllgor amdani ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 sydd o dan sylw yn adroddiad craffu'r Pwyllgor a blwyddyn ariannol ddilynol 2023-24 wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

Argymhelliad 6.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r meini prawf y mae'n eu mabwysiadu ar gyfer cyhoeddi adroddiadau ar benderfyniadau a pham na chyhoeddwyd adroddiad o'r fath pan benderfynodd gaffael daliad 5 y cant yn Local Partnerships.

Derbyn

Y meini prawf y mae Llywodraeth Cymru yn eu mabwysiadu ar gyfer cyhoeddi adroddiadau ar benderfyniadau yw bod angen adroddiad ar gyfer Cyngor Gweinidogol pan fo Gweinidog yn gwneud penderfyniad o sylwedd, nad yw'n benderfyniad gweinyddol yn ei hanfod (e.e. cyhoeddi datganiad neu adroddiad, symud arian rhwng llinellau cyllideb a nodir yn y Gyllideb gyhoeddedig). Mae canllawiau ynghylch y meini prawf ar gyfer adroddiadau ar benderfyniadau wedi'u cynnwys yn y templed y mae swyddogion yn ei ddefnyddio ar gyfer Cyngor Gweinidogol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai amryfusedd oedd peidio â chyhoeddi adroddiad pan benderfynwyd caffael daliad 5 y cant yn Partneriaethau Lleol (Local Partnerships LLP) yn 2017. Mae cyfran perchnogaeth Llywodraeth Cymru yn Partneriaethau Lleol wedi cael ei datgelu'n gyhoeddus yng nghyfrifon y corff ers blwyddyn ariannol 2017-18.

### Argymhelliad 7.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau a yw’n caffael gwasanaethau ymgynghori a gwaith prosiect arall drwy Weithredoedd Tendro Sengl ac, os felly, yn darparu manylion am yr achosion lle mae wedi gwneud hynny.**

Derbyn

Caiff y penderfyniad i sicrhau adnoddau drwy drefniadau eraill heblaw am wasanaeth sifil craidd Llywodraeth Cymru ei wneud ar ôl ystyried ein galluogrwydd a'n capasiti mewnol yn ofalus. Os bydd angen capasiti ychwanegol ar gyfer galluoedd craidd ar gyfer prosiectau neu raglenni dros dro, gallwn sicrhau adnoddau dros dro drwy fenthyciadau rhynglywodraethol; staff asiantaeth neu gontractau cyfnod penodol. Bydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol, gyda chyngor gan Adnoddau Dynol a Chyllid, yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr angen i sicrhau adnoddau dros dro drwy'r trefniadau hyn gyda sicrwydd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol mai recriwtio allanol yw'r opsiwn priodol.

Yr hyn sy'n ein hysgogi wrth drefnu adnoddau ar gyfer swyddogaethau yw gwerth gorau ac effeithiolrwydd - pan fo gwaith byrdymor a/neu pan fo angen sgiliau arbenigol iawn, y model mwyaf effeithiol fydd contractio'r gwaith hwn gan bartneriaid allanol, er enghraifft, gwasanaethau ymgynghori, asiantaethau cyflogi, cwmnïau cyfreithiol.

Mae sawl ffordd y gallwn sicrhau'r gwasanaethau hyn, yn dibynnu ar y model mwyaf effeithlon, e.e. contractau fframwaith a gwasanaethau a reolir.Mae'r rhain yn cynnwys Hays Recruitment Services (yn ôl y gofyn o Gweithwyr Dros Dro ac

Athrawon Cyflenwi - Cyfeirnod: WGCD-PCS-119-22, fframwaith ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru), ac unrhyw gontract o dan fframweithiau 'G-Cloud 13' a Fframweithiau Gwasanaethau Masnachol y Goron. O bryd i'w gilydd, gellir defnyddio trefniadau mwy penodol, yn amodol ar reolau caffael priodol, pan nad oes modd sicrhau'r ateb wedi'i deilwra sydd ei angen o dan opsiynau presennol.

Rydym bob amser yn ceisio gwella ein modelau cyflawni a lle bo galw parhaus am gymorth allanol arbenigol, byddwn yn ystyried y potensial i gynyddu capasiti mewnol er mwyn arbed arian: rydym wedi gwneud hyn yn ddiweddar gyda chymorth cyfreithiol masnachol ac yn dilyn ymgynghoriad, rydym wrthi'n cyflwyno fframwaith tâl Digidol, Data a Thechnoleg gyda'r bwriad o leihau'r galw am gontractwyr TG arbenigol.

## Argymhelliad 8

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y meysydd lle mae wedi nodi pwysau o ran sgiliau a chapasiti gweithlu ac yn egluro sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys esbonio sut y bydd adnoddau'n cael eu hailddyrannu a'u blaenoriaethu i fodloni'r pwysau hyn.**

Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gysoni sgiliau a chapasiti â blaenoriaethau'r Cabinet, gan sicrhau bod ein hadnoddau yn gydnaws â chyflawni. Mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol a'u Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am flaenoriaethu'r broses o gysoni adnoddau a chaiff pwysau o ran adnoddau ei uwchgyfeirio at ein Panel Blaenoriaethu Adnoddau (un o is-bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol).

Drwy raglen newid Llywodraeth Cymru 2025, bu pwyslais ar feithrin galluogrwydd gan gynnwys:

- ail-lunio ein rhaglen sefydlu i uwchsgilio talent newydd sy'n ymuno â Llywodraeth Cymru.
- datblygu ein rhaglen dysgu corfforaethol er mwyn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu sgiliau craidd y gwasanaeth sifil, gan gynnwys sgiliau y mae galw mawr amdanynt ym maes digidol, data a pholisi.
- buddsoddi yn y gwaith o feithrin galluogrwydd polisi ar bob lefel drwy ddatblygu fframwaith galluogrwydd polisi newydd sy'n nodi disgwyliadau o ran perfformiad a datblygiad a llwybr gyrfa ar gyfer y sawl sy'n llunio polisi ar bob lefel.
- gwella ein fframwaith tâl a gyrfaoedd proffesiynol ym maes Digidol, Data a Thechnoleg er mwyn denu a chadw'r sgiliau proffesiynol sydd eu hangen nawr a pharatoi ar gyfer gofynion yn y dyfodol o ran defnyddio technolegau newydd ac ysgogi ffyrdd effeithlon o weithio.

Lle bo angen, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i recriwtio'n allanol i sicrhau capasiti ychwanegol, sgiliau newydd a phrofiad ehangach ar gyfer rolau craidd yn y gwasanaeth sifil a sgiliau arbenigol nad ydynt ar gael yn hawdd o fewn Llywodraeth Cymru na'r Gwasanaeth Sifil.

Ers 2022, mae rhai o'n cynlluniau recriwtio allanol mwyaf wedi cynnwys rhaglen Prentisiaethau Busnes a Gweinyddu (35 o rolau); rhaglen Prentisiaethau Digidol, Data a Thechnoleg (10 rôl); rhaglen Prentisiaethau Cyllid (5 rôl) a chynllun lefel mynediad (20 rôl).

## Argymhelliad 9.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cynlluniau ac amcanion manwl i'r Pwyllgor o ran sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r cysyniad o Wasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un a'r mentrau sydd ganddi ar waith i ddatblygu a rhannu arbenigedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.**

### Gwrthod

Caiff yr argymhelliad i ddarparu cynlluniau ac amcanion manwl ei wrthod gan fod y cysyniad o Wasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un wrth wraidd egwyddor cynaliadwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dwy o'r ffyrdd o weithio, sef cydweithio a chynnwys pobl. Mae hefyd yn ymgorffori gwerth partneriaeth Llywodraeth Cymru.

Un o'r ffyrdd allweddol y caiff y gwaith hwn ei symud yn ei flaen yw drwy ddatblygu rhwydwaith cryfach â'n sefydliadau partner drwy grwpiau fel y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus, y Rhwydwaith Prif Weithredwyr, y Fforwm Cadeiryddion a Grŵp Sector Datganoledig Llywodraeth Cymru. Mae'r grwpiau hyn yn dwyn ynghyd ystod amrywiol o sefydliadau i rannu arfer da, ystyried cyfleoedd i rannu adnoddau a chydweithio ar faterion cyffredin.

Gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr yn y sector datganoledig*, mae Grŵp Sector Datganoledig Llywodraeth Cymru yn ystyried camau gweithredu i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn tâl. Yn sgil y gwaith hwn, cytunodd Gweinidogion ar gyllid newydd yn 2022 a arweiniodd at safoni'r gyfradd gyflog isaf a delir i gyflogeion yn y sector datganoledig. Bu'r camau gweithredu hyn yn gymorth o ran symud tuag at fwy o gydraddoldeb o safbwynt tâl a symud tuag at sefydlu Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un.
(*Mae'r sector datganoledig yn cynnwys gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, cyrff hyd braich, adrannau anweinidogol, deiliaid swyddi annibynnol, cwmnïau o dan berchnogaeth, a swyddfeydd comisiynwyr.)

Drwy Academi Wales, caiff ethos sector cyhoeddus Cymru'n Un ei wreiddio yn ei chyfres o ymyriadau datblygu arweinwyr, gan gydnabod bod angen i arweinwyr gydweithio a chael cyfle i ffynnu ar draws ffiniau sefydliadol/sector.

Mae Academi Wales wedi gweithio i fapio cyfleoedd datblygu arweinwyr ledled Cymru, fel y gellir cyfeirio unigolion at sefydliadau perthnasol ac, yn hollbwysig, fel y gellir cydweithio'n fwy effeithiol ar draws y tirlun hwnnw.

Mae Academi Wales wedi datblygu Arlwy wedi'i Churadu sy'n egluro pob ymyriad i dargedu ein harweinwyr a'n sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, yn dibynnu ar y pwynt y maent wedi'i gyrraedd ar eu taith arwain, ar sail tair lefel arwain – gyrfaoedd Arwain Cynnar; Agosáu at Uwch Arweinyddiaeth; ac Uwch Arweinyddiaeth. Mae hyn yn helpu ein harweinwyr i nodi'n glir yr ymyriad datblygu mwyaf priodol ar eu cyfer.

Mae arlwy Academi Wales ar gael i holl arweinwyr y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan roi cyfle iddynt ymgysylltu, rhwydweithio a chydweithio'n rheolaidd ar draws sectorau amrywiol. Yn unol â'r diben craidd o gefnogi cydweithio, bwriad y rhan helaeth o'r arlwy yw dwyn pobl o wahanol sefydliadau ynghyd.

Argymhelliad 10.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys, yn ei chyfrifon, dadansoddiad o ddata absenoldeb staff er mwyn gwahaniaethu rhwng absenoldebau oherwydd problemau iechyd meddwl a mathau eraill o salwch.

Derbyn

Gellir rhoi sicrwydd bod lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn cael eu monitro yn ôl achos yr absenoldeb, sy'n golygu y gellir cymryd camau priodol a rhoi trefniadau cymorth priodol ar waith. Darperir ystod o gymorth ar gyfer salwch meddwl a chorfforol a chaiff y ddau eu trin yn gyfartal.

Byddwn yn dechrau adrodd ar absenoldebau oherwydd problemau iechyd meddwl yng nghyfrifon 2024-25.

Argymhelliad 11.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y camau y mae swyddogion yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r cynnydd o ran absenoldebau salwch a’r cymorth sy'n cael ei ddarparu i staff, yn ogystal â’r amcanion ar gyfer sefydlu bwrdd sicrwydd iechyd a llesiant a diogelwch a’r effaith y bwriedir i hyn ei chael.

Derbyn

Nod Llywodraeth Cymru yw gwella iechyd a llesiant ei phobl drwy weithio mewn ffordd gyfannol sy'n golygu bod yr un pwys yn cael ei roi ar iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol. Cafodd y Bwrdd Cynghori ar Iechyd, Diogelwch a Llesiant, sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o feysydd Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch, Undebau Llafur a'r Uwch Wasanaeth Sifil, ei sefydlu fel rhan o raglen newid sefydliadol LlC2025 ac mae'n goruchwylio'r gwaith o weithredu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Iechyd, Diogelwch a Llesiant Llywodraeth Cymru.

Nod y Bwrdd Cynghori yw sicrhau ffocws a sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â mynd i'r afael â risgiau Iechyd, Diogelwch a Llesiant traddodiadol a newydd, ar yr amser cywir ac yn y ffordd gywir. Mae'n helpu i nodi amcanion clir ar lefel leol, lefel grŵp a lefel sefydliadol er mwyn rheoli a gwerthuso ein hymyriadau a'n gweithgareddau o safbwynt iechyd yn y gweithle.

Mae'r Bwrdd yn

- Goruchwylio ac yn rhoi cyngor technegol ar heriau, risgiau a chyfleoedd ym maes Iechyd, Diogelwch a Llesiant,
- Datblygu galluogrwydd, capasiti a diwylliant diogelwch ar bob lefel yn y sefydliad,
- Adolygu amrywiaeth o wybodaeth reoli a data yn rheolaidd, gan gynnwys tueddiadau o ran absenoldeb oherwydd salwch, data sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth, ystadegau damweiniau, a chanlyniadau'r Arolwg Pobl, er mwyn nodi materion sy'n dod i'r amlwg ac ymateb yn effeithiol.

Mae rheolwyr llinell yn chwarae rôl hollbwysig o ran rheoli absenoldebau oherwydd salwch a hybu llesiant a gwydnwch. Mae Tîm Cynghori ar Achosion yr adran Adnoddau Dynol yn darparu cyngor arbenigol yn ôl y gofyn, ac mae ystod o gymorth ychwanegol ar gael gan y sefydliad, gan gynnwys

- Rhaglenni Iechyd Galwedigaethol a Chymorth i Gyflogeion (cymorth clinigol)
- Mynediad at Therapi Ymddygiadol Gwybyddol a Chwnsela Arbenigol
- Cynghreiriaid Iechyd Meddwl
- Asesiadau Risg o Straen Unigol a Chynlluniau Gweithredu ar gyfer Llesiant
- Canllawiau Cymorth Iechyd Meddwl i Reolwyr Llinell a Phecyn Cymorth Sgwrsio
- Pasbortau ac Addasiadau ar gyfer y Gweithle
- Rhaglen Able Futures (sesiynau galw heibio)
- Awr Lesiant
- Adnoddau Llesiant Ariannol

Argymhelliad 12.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi i'r Pwyllgor ei hasesiad o effaith symleiddio ei rhaglen Llywodraeth Cymru 2025, a beth yw goblygiadau hyn i'w chynlluniau i newid a gwella'r sefydliad.

Derbyn

Cafodd ffocws LlC2025 ei newid (symleiddio) ym mis Ionawr 2024 i greu tair ffrwd waith er mwyn sicrhau y gallai Llywodraeth Cymru ateb yr heriau cyllidebol a oedd yn ei hwynebu:

1. Newid Maint
2. Newid Lleoedd
3. Newid Siâp

Diben Newid Maint oedd sicrhau y gallai'r sefydliad weithredu o fewn ei gyllideb ar gyfer staffio ac fel rhan o'r ffrwd waith hon, cyflwynwyd rheolaethau llymach ar gyfer pob proses recriwtio, cafodd materion o ran contractau dros dro a dyrchafiadau dros dro eu datrys a chynhaliwyd Cynllun Ymadael Gwirfoddol.

Sefydlwyd Newid Lleoedd er mwyn adolygu'r ystad weinyddol a nodi opsiynau i leihau costau. Llwyddodd y ffrwd waith hon i sicrhau arbedion sylweddol drwy gynyddu'r gofod sydd ar gael i denantiaid yn y sector cyhoeddus, lleihau costau glanhau, gwresogi, awyru a diogelwch ar draws yr ystad, a lleihau'r ystad brydlesol drwy reoli camau i symud a chau safle Bedwas. Yn ogystal, datblygwyd strategaeth ac opsiynau lefel uchel newydd ar gyfer yr ystad weinyddol sy'n weddill a gaiff eu rhoi ar waith dros y blynyddoedd nesaf.

Sefydlwyd Newid Siâp er mwyn sicrhau bod ein staff yn fwy cydnaws â blaenoriaethau Gweinidogol a swyddogaethau a gwasanaethau craidd y sefydliad. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo o hyd i adlewyrchu'r datblygiadau diweddar o ran Blaenoriaethau a Thargedau Gweinidogol.

Ar ôl cyhoeddi sefyllfa gyllidebol ddrafft 2025-26 ar gyfer Llywodraeth Cymru, rydym yn datblygu trydydd cam LlC2025 i sicrhau ein bod yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau Gweinidogol ac yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithredol Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith gwella yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

1. Sicrhau ein bod yn barod ar gyfer diwygio'r Senedd.
2. Gwella ein prosesau, ein systemau a'n data,
3. Creu lle gwell i bob un ohonom weithio
4. Bod yn sefydliad sy'n galluogi newid ac yn annog gwelliant parhaus.
5. Ysgogi effeithlonrwydd, gwella llywodraethu a grymuso.
   Optimeiddio ein hystad.

Argymhelliad 13.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad am gynnydd y gwaith o dan raglen Llywodraeth Cymru 2025, yn benodol ar sgiliau, gallu a blaenoriaethau ei gweithlu, ynghyd â thystiolaeth bellach i ddangos sut mae'r gwaith hwn yn mynd i'r afael â heriau capasiti.

Derbyn

Fel rhan allweddol o ail gam LlC2025, gwnaethom gyflwyno Fframwaith Galluogrwydd Polisi newydd a chwricwlwm sgiliau polisi a ddyluniwyd yn benodol i atgyfnerthu galluogrwydd ein gweithlu yn y swyddogaeth lywodraethol hollbwysig hon.

Rydym nawr yn cyflwyno teuluoedd swyddi a manylebau swydd safonol ac rydym hefyd wedi parhau i atgyfnerthu ein rhaglen galluogrwydd ehangach drwy nifer o fentrau ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys menter One Big Thing a oedd yn canolbwyntio ar alluogrwydd digidol a rhaglen arweinyddiaeth ddigidol wedi'i theilwra i'r Uwch Wasanaeth Sifil. Rydym hefyd wedi cytuno i gyflwyno fframwaith lwfans newydd ar gyfer Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT) er mwyn helpu i ddenu a chadw sgiliau DDaT y mae galw mawr amdanynt.

Dim ond un rhan o strategaeth gweithlu ehangach ar gyfer y proffesiwn DDaT, sy'n ceisio darparu'r proffesiwn DDaT medrus a thalentog sydd ei angen ar y sefydliad er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau, yw'r cynllun i gyflwyno lwfans DDaT. Mae nifer o ffrydiau gwaith yn canolbwyntio ar wahanol elfennau o adeiladu Proffesiwn a diwylliant er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau a helpu unigolion i gamu ymlaen yn eu gyrfa. Mae'r ffrydiau gwaith hynny yn cynnwys datblygu llwybrau gyrfa a chyfleoedd dysgu a datblygu er mwyn helpu unigolion yn well i gamu ymlaen ym mhob rôl yn y Proffesiwn DDaT. Maent hefyd yn cynnwys datblygu prosesau cyrchu adnoddau i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar y Proffesiwn DDaT a'r sefydliad nawr ac yn y dyfodol.

Mae strwythurau grŵp newydd wedi cael eu cyflwyno i ymateb i newidiadau ym mhortffolios y Cabinet a sicrhau bod ein hadnoddau sefydliadol mor gydnaws â phosibl â strwythurau Gweinidogol. O fewn Grwpiau. Mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol wedi gwneud llawer o waith i gysoni adnoddau â blaenoriaethau cyflawni a gwelwyd cynnydd sylweddol yn y thema hon yn ein harolwg diweddaraf.Gwelwyd cynnydd mawr yn sgorau'r Arolwg Pobl diwethaf mewn perthynas â'r Thema Dysgu a Datblygu.

Argymhelliad 14.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau ei chynllun ymadael gwirfoddol diweddar, gan gynnwys nifer y staff sydd wedi gwneud cais i adael y sefydliad a'r achosion a gymeradwywyd, yn ogystal â'r mini prawf ar gyfer asesu ceisiadau a'r arbedion disgwyliedig sy'n deillio o'r cynllun.

Derbyn

Daeth Cynllun Ymadael Gwirfoddol 2024 Llywodraeth Cymru i ben gyda chyfanswm o 91 aelod o staff yn gadael y sefydliad ar 31 Awst 2024. O'r 91 hyn, roedd 65 ohonynt mewn swyddi a ariennir drwy gostau rhedeg dirprwyedig ac roedd y 26 arall mewn rolau a ariennir gan raglenni. Cyfanswm costau'r taliadau digolledu i'r staff a adawodd Llywodraeth Cymru oedd £6.011m. Amcangyfrifir y gellir arbed £6.001m y flwyddyn ar ôl i'r 91 aelod o staff adael. Fodd bynnag, ni chaiff yr arbedion hyn eu gwireddu tan 2025-26 oherwydd, am mai yn ystod Cyfnod 5 o flwyddyn ariannol 2024-25 y gwnaeth y staff ymadael yn swyddogol, dim ond 7/12 o'r arbedion blynyddol a gaiff eu sicrhau yn 2024-25, sy'n werth £3.500m. Rhagwelir y caiff yr arbediad blynyddol llawn, sef £6.001m, ei gyflawni yn 2025-26 ac mae wedi'i ystyried yn y rhagolygon costau staff.

Agorodd y cynllun i geisiadau gan staff ar 18 Mawrth 2024 a daeth i ben ar 15 Ebrill 2024. Cafwyd 393 o geisiadau. Cytunodd y Pwyllgor Gweithredol ac Undebau Llafur ar feini prawf sgorio cyson er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn gwarchod sgiliau a galluogrwydd hanfodol. Roedd y meini prawf dethol yn canolbwyntio ar sgorio'r effaith y byddai rhyddhau staff yn ei chael mewn tri chategori: sgiliau allweddol; parhad busnes a recriwtio staff newydd. Ystyriodd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol a'u Cyfarwyddwyr y sgoriau a gwnaethant argymhelliad ar sail gwybodaeth ynghylch pob cais.

Cyfarfu panel corfforaethol y Strategaeth Ymadael Gwirfoddol o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Anweithredol, gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r busnes ar lefel Cyfarwyddwyr, Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr Uwch Wasanaeth Sifil ac Undebau Llafur (fel sylwedyddion), ar 3 Mai i ystyried argymhellion yn erbyn diben y cynllun; rhoi sicrwydd ynghylch y broses; ac ystyried costau ac amser talu'n ôl yr arbedion. Argymhellodd y Panel Corfforaethol i'r Pwyllgor Gweithredol y dylai pob aelod o staff a gafodd sgoriau isel yn y tri maen prawf ac na fyddai angen cyflogi neb arall yn eu lle, gael eu rhyddhau, h.y. bod modd arbed arian yn uniongyrchol os bydd yr unigolyn hwnnw yn gadael y sefydliad a bod ei rôl yn cael ei dileu o'n strwythurau a bod dirprwyaethau staffio yn lleihau yn unol â hynny.

Cytunodd y Pwyllgor Gweithredol ag argymhelliad y panel corfforaethol mai dim ond yr ymgeiswyr hynny na fyddai angen cyflogi neb arall yn eu lle a ddylai gael eu rhyddhau. Er bod opsiwn i ryddhau hyd at 150 o staff drwy'r cynllun, roedd goblygiadau hynny o ran cynllunio'r gweithlu a'r risg o ran y capasiti a'r galluogrwydd y byddai angen i'r sefydliad eu recriwtio yn eu lle yn golygu na wnaeth y Pwyllgor Gweithredol ystyried rhyddhau unrhyw ymgeiswyr eraill heblaw'r rhai a gafodd y sgoriau isaf.

Argymhelliad 15.

Gan nodi cynllun ymadael gwirfoddol diweddar Llywodraeth Cymru a'r posibilrwydd o golli profiad ac arbenigedd o fewn y gweithlu, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut y mae'r risgiau cysylltiedig yn cael eu lliniaru.

Derbyn.

Roedd cynllun ymadael gwirfoddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys meini prawf sgorio clir i liniaru'r risg o golli profiad, arbenigedd a gwybodaeth. Yn achos pob cais, roedd yn rhaid ystyried y risg benodol hon yn ofalus ac fe'i defnyddiwyd i lywio'r sgoriau a'r argymhellion a gyflwynodd y Grŵp i Banel Corfforaethol y Strategaeth Ymadael Gwirfoddol a phenderfyniad terfynol y Pwyllgor Gweithredol. Cafodd y meini prawf sgorio eu hesbonio'n glir i'r sefydliad er mwyn rheoli disgwyliadau'r ymgeiswyr ac fe'u hystyriwyd yn benodol gan Banel Corfforaethol y Strategaeth Ymadael a'r Pwyllgor Gweithredol.

Roedd y broses ymadael yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau ac roedd yn ofynnol i reolwyr ac unigolion gynnal sesiwn trosglwyddo gwybodaeth fel rhan o'u paratoadau i ymadael, er mwyn rhannu'r holl wybodaeth a chofnodion hanfodol.

Argymhelliad 16.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr adolygiad o'i fframwaith perfformiad a’r gwaith o ddatblygu dull cerdyn sgorio cytbwys o ran adrodd ar berfformiad, gan gynnwys y cwmpas, y fethodoleg a'r amserlen ar gyfer yr adolygiad, yn ogystal â pha wybodaeth y mae swyddogion yn disgwyl ei chynnwys am y fframwaith perfformiad diwygiedig yn y cyfrifon.

Derbyn

Ym mis Mawrth 2024, cytunodd y Pwyllgor Gweithredol y byddai Llywodraeth Cymru yn newid i drefn newydd o adrodd yn amlach ar DPAau, yn seiliedig ar

gerdyn sgorio cytbwys chwarterol. Y bwriad yw monitro perfformiad sefydliadol drwy gyfres o fetrigau er mwyn cefnogi prosesau adrodd mwy rheolaidd ac mae disgwyl i hyn hwyluso camau gweithredu ac ysgogi gwelliannau o ran effeithiolrwydd sefydliadol.

I Lywodraeth Cymru, mae ffocws y cerdyn sgorio yn wahanol i'r un a ddefnyddir yn y sector er elw. Mae'r dull yn canolbwyntio ar strwythur y sefydliad (gan gynnwys y gweithlu a'r gweithle), swyddogaethau (fel TG a chaffael) a phrosesau (fel asesiadau effaith, rhyddid gwybodaeth, a diogelwch data).

Caiff gwaith i ddatblygu'r cerdyn sgorio cytbwys newydd ar gyfer dull adrodd ar berfformiad Llywodraeth Cymru ei gyflawni mewn tri cham – 1) Ymgysylltu, 2) Drafftio ac Ailadrodd, ac 3) Ymwreiddio'r fframwaith a'i ddefnyddio fel mater o drefn.

*Cam 1: Ymgysylltu (Gwanwyn - Haf 2024)*

Fel rhan o'r cam Ymgysylltu, ymgysylltodd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) â chydweithwyr ar draws y busnes i ddeall yr wybodaeth a gaiff ei hadrodd ar hyn o bryd a'i haddasrwydd i'w chynnwys yn y cerdyn sgorio. Ymgysylltodd KAS hefyd â Chyfarwyddwyr Anweithredol i holi eu barn am fetrigau a fformat arfaethedig y cerdyn sgorio. Yn ogystal, ystyriodd KAS y meysydd yr adroddwyd arnynt fel rhan o Fframwaith Perfformiad blaenorol Llywodraeth Cymru a'u haddasrwydd ar gyfer dull adrodd chwarterol.

Ar sail y gwaith ymgysylltu hwn, y pedwar cwadrant a gynigiwyd ar gyfer y cerdyn sgorio oedd:

- Pobl a Lleoedd
- Cyllid
- Cyflawni – (Mewnol ac Allanol)
- Prosesau Mewnol/Llywodraethu

Cytunwyd y dylai pob cwadrant gynnwys nifer cymharol fach o fesurau, er mwyn sicrhau y gall y Pwyllgor Gweithredol a'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ganolbwyntio ar yr wybodaeth allweddol sydd ei hangen arnynt. Ystyriwyd y cydbwysedd o ran mesurau blynyddol a mesurau chwarterol yn ystod y cam hwn hefyd. Cytunwyd y dylai'r cerdyn sgorio gynnwys mesurau sy'n ategu, ond nid yn dyblygu, adroddiadau eraill, e.e. adroddiadau ariannol misol ac adroddiadau'r Arolwg Pobl.

Ar ddiwedd y cam hwn, nodwyd metrigau posibl y gellid adrodd arnynt a dechreuwyd trafod sut i flaenoriaethu'r metrigau hyn.

*Cam 2: Drafftio ac Ailadrodd (Hydref 2024 – Haf 2025)*

Mae gwaith datblygu bellach yn canolbwyntio ar ddrafftio'r cerdyn sgorio gan ddefnyddio data go iawn a datblygu metrigau, targedau a meincnodau pellach i'w cynnwys yn y cerdyn sgorio. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ystyried a chytuno ar fetrigau blynyddol i'w defnyddio ar y cyd â'r metrigau chwarterol yn y cerdyn sgorio gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd o'r Fframwaith Perfformiad blaenorol.

Yn ystod y cam hwn, cytunwyd hefyd y caiff y cerdyn sgorio cytbwys ei ystyried bob chwarter gan yr Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforol cyn y Pwyllgor Gweithredol. Caiff defnyddio'r cerdyn sgorio i gefnogi prosesau sefydliadol eraill ei ystyried hefyd. Er enghraifft, defnyddio adroddiadau'r cerdyn sgorio er mwyn helpu i lywio'r broses ICQ ac uwchgyfeirio unrhyw risgiau a nodir drwy'r cerdyn sgorio cytbwys at y gofrestr risg gorfforaethol gan ddefnyddio'r prosesau sydd ar waith yn barod.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ystyried sut y dylai'r cerdyn sgorio adlewyrchu'r cynllun LlC2025 newydd, gan gynnwys mesurau addas.

*Cam 3 – Ymwreiddio'r fframwaith a'i ddefnyddio fel mater o drefn (o haf 2025)*

Bydd y cam hwn yn canolbwyntio ar ymwreiddio'r dull gweithredu yn y sefydliad a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn.

Rhagwelir y bydd y cyfrifon blynyddol yn cynnwys crynodeb o'r adroddiadau ar berfformiad ar hyd y flwyddyn, a fydd yn cynnwys adroddiadau rheolaidd y cerdyn sgorio ynghyd â metrigau blynyddol sy'n ymdrin ag agweddau pwysig eraill ar berfformiad (fel Gwerthoedd Llywodraeth Cymru). Bydd hefyd yn cynnwys y myfyrdodau a'r camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i hynny gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

# 3. Atodiad 1

## Defnydd Llywodraeth Cymru o wasanaethau Partneriaethau Lleol (Local Partnerships LLP), gan gynnwys gwariant a ysgwyddwyd, rhestr o gontractau a natur y gwasanaethau/gwaith a gaffaelwyd oddi tanynt yn ystod 2022-3 a 2023-4.

Defnyddiodd Llywodraeth Cymru wasanaethau Partneriaethau Lleol i ddarparu capasiti a gallu masnachol, ariannol a sector-benodol ac adnoddau ymarferol i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau allweddol ac ymrwymiadau penodol y Rhaglen Lywodraethu.

Gwariant:
Mae crynodeb o wariant Llywodraeth Cymru ar wasanaethau Partneriaethau Lleol fesul prosiect ac yn ei gyfanrwydd yn ystod y blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24 wedi'i nodi isod (ac eithrio TAW):

| | 2022–23<br><br>£000oedd | 2023–24<br><br>£000oedd |
|---|---|---|
| Ynni Cymru | 21 | 818 |
| Y Gwasanaeth Ynni | 583 | 570 |
| Trydan Gwyrdd Cymru | 664 | 683 |
| Rhaglen Ynni'r Môr | 649 | 416 |
| Rhaglen Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol | 1,701 | 2,216 |
| Model Buddsoddi Cydfuddiannol – Felindre | 130 | 214 |
| Model Buddsoddi Cydfuddiannol – Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 415 | – |

| | 2022–23<br><br>£000oedd | 2023–24<br><br>£000oedd |
|---|---|---|
| Cynllun Addasu i'r Newid Hinsawdd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | – | 83 |
| Y Rhaglen Cartrefi Clyd | – | 116 |
| Cwmni Egino | 112 | 19 |
| Dechrau gwaith ar Safleoedd ar gyfer Tai Fforddiadwy – Ffosffadau | – | 35 |
| Adolygiad o Lywodraethiant Argyfyngau Sifil Posibl | 94 | – |
| Datganiad o Fwriad ECO4 | 24 | 24 |
| Grid y Dyfodol | 40 | 14 |
| Prosiectau llai eraill | 180 | 39 |
| Cyfanswm | 4,613 | 5,247 |

Ynni Cymru

Contractau:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023, gyda gwerth o £20k.
- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2025, gyda gwerth o hyd at £3,600k.
- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Tachwedd 2023 a 31 Mawrth 2025, gyda gwerth o £12k (les lleoliad gwaith M-Sparc)

Natur y Gwasanaethau:

- Sefydlu Rhaglen Ynni Cymru i ddarparu llif amrywiol o brosiectau ynni adnewyddadwy arloesol, doethach a lleol sy'n cael eu cynnal gan gymunedau i ddod â phrosesau cynhyrchu, storio, galw a seilwaith ynni at ei gilydd. Y nod yw sicrhau bod ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol yn cael ei ddarparu i'r lle iawn, ar yr adeg iawn er mwyn gwella effeithlonrwydd, sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl o'r grid a sicrhau'r manteision lleol mwyaf.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys y canlynol:

- datblygu'r achos busnes dros sefydlu Ynni Cymru
- sefydlu grwpiau rhanddeiliaid allweddol i helpu i ddatblygu gweithgarwch ac ymgysylltu ag ystod o brosiectau ynni sector cyhoeddus a chymunedol i nodi lle y gall Ynni Cymru ychwanegu gwerth at weithgareddau'r system ynni gyfan orau
- darparu gwasanaeth gwirio iechyd o asedau ynni adnewyddadwy lleol a chymunedol sy'n bodoli eisoes
- darparu cyngor a chymorth cynhwysfawr ynghylch Systemau Ynni Lleol Clyfar
- gwasanaeth cymorth grid i ddangos yr hyn y gellir ei gysylltu â'r grid heddiw ac yn y dyfodol
- datblygu offer cyflawni prosiectau newydd i ymdrin â'r cymhlethdodau o ran storio ynni o fatris ac amrywiaeth o dechnolegau gwres
- llif amrywiol o brosiectau
- datblygu prosiectau a'u cyflawni

## Y Gwasanaeth Ynni

Contractau:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, gyda gwerth o £610k.
- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, gyda gwerth o £570k.

Natur y Gwasanaethau:

- Darparu gwasanaeth ymgysylltu strategol sy'n cynnwys holl gyrff y sector cyhoeddus, gan gynnwys Byrddau Iechyd a sefydliadau addysg uwch (sy'n cynnwys 77 o sefydliadau cymwys), i ddatblygu, dadrisgio a chyflymu lleihau carbon, effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a phrosiectau datgarboneiddio fflyd sy'n cyfrannu at gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i'r sector fod yn sero net erbyn 2030. Yn hyn o beth, mae Partneriaethau Lleol yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid cyflawni eraill Llywodraeth Cymru, yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.
- Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau, adeiladu cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy, trosglwyddo fflydoedd cerbydau i bŵer trydan, a gwella prosesau caffael i leihau cynnwys carbon nwyddau a gwasanaethau a brynir. Mae'n cynnwys cynorthwyo sefydliadau unigol yn ogystal ag annog cydweithio drwy gefnogi gwaith cynllunio ynni ar lefel leol a rhanbarthol, gan helpu i sicrhau gwell arbedion maint.

## Trydan Gwyrdd Cymru

Contractau:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Tachwedd 2022, gyda gwerth o £108k.
- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Rhagfyr 2022 a 31 Mawrth 2024, gyda gwerth o hyd at £1,622k.

Natur y Gwasanaethau:

- Sefydlu Trydan Gwyrdd Cymru yn ddatblygwr ynni adnewyddadwy hyd braich y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno er mwyn cyflymu'r gwaith o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar ystâd goetir ehangach Llywodraeth Cymru a gwneud y mwyaf o'i werth er budd pobl Cymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- creu'r achos busnes ar gyfer Trydan Gwyrdd Cymru, a nodi a datblygu llif o brosiectau gwynt sylweddol ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru
- hyrwyddo pob agwedd ar sefydlu'r cwmni newydd, gan gynnwys dylunio sefydliadol, recriwtio staff, sefydlu'r Bwrdd, rhoi systemau craidd ar waith, hunaniaeth a brandio corfforaethol a chofrestru'n ffurfiol yn Nhŷ'r Cwmnïau.

## Rhaglen Ynni'r Môr

Contractau:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, gyda gwerth o hyd at £700k.
- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, gyda gwerth o hyd at £420k.

Natur y Gwasanaethau:

- gwerth £750,000 ar gael i gonsortia ymchwil i ddangos y potensial naill ai i leihau neu ddileu rhwystrau sy'n atal môr-lynnoedd llanw rhag cael eu datblygu ar hyn o bryd, neu helpu i fesur manteision posibl datblygu môr-lynnoedd llanw
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru, porthladdoedd Port Talbot ac Aberdaugleddau a rhanddeiliaid cadwyni cyflenwi perthnasol i helpu ymdrechion i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Gymru yn sgil y diwydiant gwynt ar y môr sy'n datblygu ac i sicrhau cyllid ar gyfer arolygon cychwynnol a gwaith dylunio i gefnogi uwchraddio porthladdoedd
- arwain ar Her Morlyn Llanw Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid grant

- gweithio gyda phrosiect arddangos ffrwd lanw Morlais oddi ar arfordir Ynys Môn i ddatblygu ystod o opsiynau cyllido creadigol i alluogi cynaliadwyedd prosiectau a chynyddu'r defnydd o ddyfeisiau ffrydiau llanw i'r graddau mwyaf y cytunwyd arnynt ar gyfer y safle, yn ogystal â thrafod a chael cymeradwyaeth ar gyfer buddsoddiad ecwiti Llywodraeth Cymru ym Menter Môn Morlais Ltd, sef y cwmni sy'n gweithredu'r safle.

## Rhaglen Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol

Contractau:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, gyda gwerth o hyd at £1,904k.
- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, gyda gwerth o hyd at £2,209k.

Natur y Gwasanaethau:

- cefnogi'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflawni'r Rhaglen Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr drwy ddarparu swyddfa cymorth ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau
- helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth ag awdurdodau lleol drwy ddarparu adnodd arbenigol i gefnogi'r gwaith o reoli contractau gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat gweithredol yn effeithiol
- cefnogi'r uchelgais i sicrhau defnydd 'un blaned' o adnoddau a chyflawni carbon sero net erbyn 2050 drwy roi mentrau ar waith ar y cyd i fynd i'r afael â deunydd anodd ei ailgylchu ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys hwyluso'r broses o symud tuag at gerbydau allyriadau isel iawn ar gyfer casglu sbwriel a deunydd i'w ailgylchu ledled Cymru
- ochr yn ochr â WRAP Cymru, helpu i gyflawni targedau ailgylchu statudol awdurdodau lleol a chyflwyno seilwaith
- helpu i lywio polisi a'r gofynion o ran seilwaith yn y dyfodol, gan gynnwys asesu effeithiau Masnachu Allyriadau a chyfansoddiad gwastraff sy'n newid a helpu i sicrhau bod seilwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn parhau i gyflawni'r canlyniadau gorau, gan sicrhau bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael y gwerth gorau am arian
- helpu'r broses o newid i economi gylchol.

## Model Buddsoddi Cydfuddiannol – Felindre

Contract:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 6 Medi 2021 a 31 Mawrth 2024, gyda gwerth o hyd at £414k.

Natur y Gwasanaethau:

- cefnogi'r gwaith caffael a dyfarnu'r contract ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre, gan weithredu i sicrhau y caiff buddiannau Llywodraeth Cymru eu diogelu.

## Model Buddsoddi Cydfuddiannol – Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Contract:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2022, gyda gwerth o hyd at £1,086k.

Natur y Gwasanaethau:

- arwain ar y gwaith o ddatblygu'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol a'r defnydd a wneir ohono yn y sector ysgolion ac addysg bellach
- arwain ar y gwaith o gaffael partner strategol Llywodraeth Cymru a sefydlu Cwmni Partneriaeth Addysg Cymru
- cefnogi'r gwaith caffael a dyfarnu contractau ar gyfer y prosiectau braenaru cyntaf i ysgolion

## Cynllun Addasu i'r Newid Hinsawdd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Contract:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 9 Hydref 2023 a 31 Gorffennaf 2024, gyda gwerth o £82k.

Natur y Gwasanaethau:

- cefnogi'r is-adran gyda'i gwaith cynllunio o ran addasu i'r hinsawdd yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd "Addasu i Newid Hinsawdd: Cynnydd yng Nghymru" a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023.
- datblygu Pecyn Cymorth Addasu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a deunyddiau hyfforddi a gweithdai wedi'u teilwra i amgylchiadau a gofynion penodol y sector yng Nghymru.

## Y Rhaglen Cartrefi Clyd

Contract:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Mai 2023 a 30 Mehefin 2024, gyda gwerth o hyd at £140k.

Natur y Gwasanaethau:

- darparu adolygiad strategol o'r contract a'r dogfennau contract presennol
- adolygu'r dogfennau tendro
- darparu cymorth caffael strategol
- gweithredu yn rheolwr contract Llywodraeth Cymru ar gyfer y contractau Cartrefi Clyd i sicrhau parhad gwasanaethau mewn modd di-dor, amserol a threfnus wrth bontio rhwng prosiectau presennol a Newydd
- ymgorffori arferion rheoli contractau a gweithdrefnau effeithiol i'w mabwysiadu gan swydd rheolwr contract parhaol Llywodraeth Cymru

## Cwmni Egino

Contract:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Medi 2021 a 30 Medi 2023, gyda gwerth o hyd at £229k.
- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 4 Tachwedd 2021 a 31 Mai 2022, gyda gwerth o hyd at £47k (Broceriaeth y Gadwyn Gyflenwi Niwclear).
- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Tachwedd 2021 a 30 Mehefin 2022, gyda gwerth o £25k. (Rhaglen Datblygu Trawsfynydd)

Natur y Gwasanaethau:

- helpu Llywodraeth Cymru i sefydlu Cwmni Egino Ltd, sef cwmni datblygu a grëwyd hyrwyddo defnydd newydd ar gyfer safle niwclear Trawsfynydd yng Ngwynedd
- rhoi'r swyddogaethau busnes sylfaenol ar waith sy'n angenrheidiol i'r endid newydd weithredu
- creu strwythurau llywodraethiant newydd ar ffurf bwrdd cwmni
- darparu setiau sgiliau allweddol a gallu gweithredol nes y gellid recriwtio staff Parhaol
- cynorthwyo Cwmni Egino i gyflawni rhan gyntaf ei gynllun busnes cychwynnol
- darparu sgiliau a gallu rheoli'r rhaglen i lunio llinell amser gychwynnol y rhaglen, adnoddau rheoli risg cychwynnol ac achos busnes amlinellol drafft i gefnogi'r achos dros gyllid cyhoeddus pellach yn y dyfodol

- paratoi astudiaeth ddichonoldeb i ystyried hyfywedd datblygu Gwasanaeth Broceriaeth Datgomisiynu Niwclear, sy'n canolbwyntio ar y cyfleoedd economaidd a ddarperir gan orsaf bŵer Trawsfynydd gan ystyried cyfleoedd ehangach ledled Cymru a'r DU
- helpu Llywodraeth Cymru o ran rheoli Rhaglen Datblygu Trawsfynydd drwy gydol y cyfnod pontio pan fydd cyfrifoldebau cyflawni yn trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i Gwmni Egino
- cynnal momentwm a chynnydd yn ystod y cyfnod pontio hwn, gan sicrhau bod y trosglwyddo i Gwmni Egino yn digwydd yn ddidrafferth ac nad yw Llywodraeth Cymru yn wynebu risg amhriodol neu ormodol.

## Adolygiad o Lywodraethiant Argyfyngau Sifil Posibl

Contract:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 26 Ebrill 2022 a 26 Hydref 2022, gyda gwerth o £94k.

Natur y Gwasanaethau:

- cynnal arolygon a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- adolygu pob maes o ran argyfyngau sifil posibl a chynllunio ar gyfer argyfyngau ledled Cymru, yn ogystal ag adolygu modelau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill
- cynnal gweithdai gyda fforymau Gwytnwch Lleol
- profi adroddiadau

## Dechrau gwaith ar safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy – Ffosffadau

Contract:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 14 Awst 2023 a 31 Rhagfyr 2023, gyda gwerth o hyd at £75k.

Natur y Gwasanaethau:

- ymwneud â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, datblygwyr ac awdurdodau cynllunio er mwyn nodi a mynd i'r afael â materion ar sail fesul safle, o restr o 68 o safleoedd, i nodi cartrefi a safleoedd newydd sy'n gallu bwrw ymlaen yn amodol ar brosesau cynllunio a datblygu arferol.

## Datganiad o Fwriad ECO4

Contract:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 23 Ionawr 2023 a 31 Rhagfyr 2023, gyda gwerth o hyd at £36k.

Natur y Gwasanaethau:

- helpu Llywodraeth Cymru, CLlLC ac awdurdodau lleol unigol i hwyluso Datganiad o Fwriad Llywodraeth Cymru o ran ECO4 Flex drwy gyfnod dysgu gweithredol cynnar, cyfweliadau un-i-un a chyfweliadau ar y cyd
- cynhyrchu canllawiau addasu ECO4 Flex ar gyfer awdurdodau lleol a'u diweddaru drwy gydol y cyfnod Dysgu
- helpu Llywodraeth Cymru (neu CLlLC) i gydgysylltu Gweithgor ECO4 / Ôl-osod Domestig Awdurdodau Lleol Cymru
- llunio adroddiadau, papurau briffio, cofnodion a deunyddiau cyfathrebu
- archwilio arferion da mewn perthynas â chasglu a defnyddio data sydd ar gael i'r cyhoedd o ran tai, tystysgrifau perfformiad ynni a data demograffig-gymdeithasol
- llunio adroddiad ynghylch gwersi a ddysgwyd a'r camau nesaf a argymhellir
- gweithio gydag Awdurdodau Lleol Cymru a CLlLC i archwilio dulliau gweithredu rhanbarthol ar gyfer cyflawni ECO4 Flex ac integreiddio â chynlluniau ôl-osod domestig ehangach
- defnyddio'r Gwasanaeth Ynni i fesur yr awydd am ddulliau gweithredu cydweithredol, a datblygu achos dichonoldeb cynnar / achos amlinellol strategol ar gyfer cerbydau cyflenwi rhanbarthol
- rhannu dysgu o ranbarthau eraill
- adeiladu ar unrhyw drefniadau rhanbarthol sy'n bodoli eisoes o ran sero net / caffael / cyflawni tai lle bo hynny'n berthnasol
- cynhyrchu llawlyfr Ôl-osod Domestig pwrpasol ar gyfer Awdurdodau Lleol ledled Cymru

## Grid y Dyfodol

Contract:

- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Ebrill 2023 i 30 Medi 2023, gyda gwerth o hyd at £29k.
- Gorchymyn Gwaith Llywodraeth Cymru yn cwmpasu rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Mawrth 2024, gyda gwerth o hyd at £19k.

Natur y Gwasanaethau:

- hyrwyddo prosiect Gridiau Ynni'r Dyfodol i Gymru
- hyrwyddo ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid ynghylch canlyniadau'r prosiect, gan gynnwys drwy weminarau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb

## Prosiectau llai eraill

| | 2022–23<br>£000oedd | 2023–24<br>£000oedd |
|---|---|---|
| Sicrhau Ansawdd Re:fit 3 | – | 3 |
| Cynllunio ar gyfer Sero Net | – | 14 |
| Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (llwybr hanfodol) | – | 14 |
| Cynllunio Cyfalaf Strategol | 48 | 8 |
| Cymorth Seilwaith Cerbydau Trydan | 22 | – |
| Achos Busnes THTF | 18 | – |
| Canolfannau Integredig | 45 | – |
| Unnos | 8 | – |
| Achos Portffolio Cyflenwi Ynni | 9 | – |
| Gwasanaeth Ynni Cwmpas 3 | 30 | – |
| **Cyfanswm** | **180** | **39** |